# MYND I GERDDED AR Y BWS

## Rhosili



‘Mynd i Gerdded ar y Bws’ yw un o fentrau Dinas a Sir Abertawe i annog twristiaeth gynaliadwy a ffyrdd iach o fyw drwy hyrwyddo teithiau cerdded byr sydd wedi’u cysylltu â theithiau bws.

## Gwybodaeth am Fysus

**Dydd Llun-dydd Sadwrn** (bob awr)
**Dydd Sul** (gwasanaeth cyfyngedig):)
Gower Explorer Rhif 118 Rosili o Orsaf Fysus Abertawe.

Gwiriwch cyn teithio.

**Llinell Deithio Cymru** ☎ 0870 608 2 608

www.traveline-cymru.org.uk

## Uchafbwyntiau’r Daith Gerdded

- Llwybr hawdd i wylfa Gwylwyr y Glannau sy'n edrych dros Ben Pyrod.
- Golygfeydd eang a syfrdanol.
- Pen Pyrod – un o'r machludoedd haul mwyaf poblogaidd mewn ffotograffau ar draws y byd.
- Blodau lliwgar iawn yn ystod y gwanwyn.
- Gellir gweld y frân goesgoch, yr ehedydd, yr hebog tramor a'r boncath yn ystod y daith hon.
- The Vile – olion unigryw o system gaeau ganoloesol.

## Cysylltiadau Defnyddiol

**Canolfan Croeso Abertawe**
**☎ 01792 468321 ✉ tourism@swansea.gov.uk**
**www.dewchifaeabertawe.com**
**www.abertawe.gov.uk/aonb**

| | |
|---|---|
| **Dechrau a Gorffen:** | Safle Bws yn Rhosili |
| **Pellter/amser:** | Tua 2 filltir, 1 1/2 awr. |
| **Tir:** | Yr wyneb yn amrywio o dir caled a gwastad, i dir meddal ac anwastad. Mae dwy step, llethr byr ond dim camfeydd. |
| **Gwybodaeth Diogelwch:** | Gwyliwch y clogwyni ar hyd y daith. Mae'r sarn garw i Ben Pyrod yn llanwol - dylid cadarnhau'r wybodaeth yn yr wylfa. |
| **Byddwch yn barod:** | Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas ar gyfer yr amodau a'r tymhorau. |
| **Lluniaeth:** | Caffis, tafarn a siop ym mhentref Rhosili. |
| **Toiledau Cyhoeddus:** | Prif faes parcio yn Rhosili. |

- Dechreuwch y daith lle bydd y bws yn aros ar ben ei daith yn Rhosili a cherddwch am i lawr heibio'r maes parcio mawr a siop yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thrwy gât ar drac caled da. Dilynwch y trac hwn am oddeutu milltir nes cyrraedd gwylfa fach Gwylwyr y Glannau sy'n edrych dros Ben Pyrod.
- O wylfa Gwylwyr y Glannau, trowch i'r chwith a dilyn pen y clogwyni i gyfeiriad cornel wal gerrig. Ewch yn eich blaen i gât fach yn y wal.
- Ewch drwy'r gât ac anelu'n ôl i'r mewndir ac i gyfeiriad pentref Rhosili. Dilynwch y trac drwy gae, gan fynd drwy gât arall - wedi tua 1/4 milltir, mae'r trac yn troi i'r chwith. Dilynwch y trac wrth iddo droi i'r dde ac yna i'r chwith eto, gan ddod allan yn y diwedd ar y ffordd.
- Mae'r safle bws ychydig o lathenni ymhellach ymlaen ar y dde.



Mae’r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu – Ionawr 2014. Mae taflenni eraill yn y gyfres hon ar gael gan Ganolfan Croeso Abertawe, www.abertawe.gov.uk/aonb Stryd Plymouth, Abertawe SA1 3QG.

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe






# Rhossili

Walking by Bus

Landscapes for life .org.uk
GOWER One of the AONB Family